OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1064

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

## RHAN 9

### Hysbysiadau, darparu a chyfnewid gwybodaeth

**Yr wybodaeth sydd i'w rhoi**

**44.**—(1) Caiff arolygydd neu unrhyw un arall o swyddogion Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol i berson priodol roi i'r arolygydd neu'r swyddog, o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad, unrhyw wybodaeth y gall y person feddu arni o ran—

(a) y planhigion a dyfwyd neu'r cynhyrchion a gafodd eu storio ar unrhyw adeg yn y fangre y mae hysbysiad wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â hi o dan y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw bla planhigion neu ddeunydd perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff (4)(b); ac

(c) y personau sydd wedi bod, neu'n debygol o fod wedi bod, â'r pla planhigion neu'r deunydd perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff (4)(b) yn eu meddiant neu o dan eu gofal.

(2) Rhaid i'r amser y mae'n ofynnol i'r wybodaeth gael ei rhoi i'r arolygydd neu'r swyddog arall o'i fewn fod yn rhesymol.

(3) Rhaid i berson priodol gyflwyno unrhyw drwydded, datganiad swyddogol, tystysgrif, pasbort planhigion, cofnod, anfoneb neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phla planhigion neu unrhyw ddeunydd perthnasol a bennir yn yr hysbysiad i'w archwilio gan yr arolygydd neu'r swyddog arall.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "person priodol" ("*appropriate person*") yw—

(a) person sy'n berchen ar y fangre, meddiannydd y fangre neu berson arall sydd â gofal am y fangre y mae hysbysiad wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â hi o dan y Gorchymyn hwn;

(b) person sydd, neu sydd wedi bod, neu y mae gan yr arolygydd neu'r swyddog amheuaeth resymol ei fod, neu ei fod wedi bod, yn meddu ar y canlynol neu â gofal am y canlynol—

(i) pla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1 neu yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(ii) pla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 na 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(iii) unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n cario pla planhigion y cyfeirir ato ym mharagraff (i) neu (ii), neu sydd wedi ei heintio ag ef; neu

(iv) unrhyw ddeunydd perthnasol y mae'r arolygydd neu'r swyddog yn gwybod neu'n amau ei fod wedi ei lanio yng Nghymru neu ei allforio o Gymru; neu

(c) person sydd, fel arwerthwr, gwerthwr neu fel arall, wedi gwerthu, wedi cynnig ar gyfer ei werthu neu wedi gwaredu fel arall bla planhigion y cyfeirir ato yn is-baragraff (b)(i) neu (ii).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 44 mewn grym ar 2.11.2018, gweler **ergl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 02/11/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018, Adran 44.